



Y COD YMDDYGIAD WRTH DEITHIO AR FYSIAU YSGOL

I FOD YN DDIOGEL

- Pan fo'r bus yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio cyn mynd arno
- Ewch ar y bus ac oddi ar y bus yn ofalus – mae gwthio neu ruthro'n gallu achosi damweiniau
- Dylech wastad wisgo eich gwregys diogelwch ac aros yn eich sedd am y siwrne gyfan – gallai achub eich bywyd
- Ar fws ysgol, arhoswch yn eich sedd am y siwrne gyfan
- Ar fws cyhoeddus, dewch o hyd i sedd os oes un ar gael
- Storiwch eich bag neu eiddo arall yn ddiogel ac allan o ffordd pawb
- Gadewch i'r gyrrwr yrru heb i unrhyw beth fynd â'i sylw yn ystod y siwrne
- Cymerwch ofal o'r bus
- Peidiwch byth â phoeri nac ysmygu
- Peidiwch byth â bod yn anfoesgar wrth ddysgwyr eraill na'r gyrrwr
- Peidiwch byth ag ymyrryd â theclynnau rheoli'r gyrrwr nac offer diogelwch
- Peidiwch byth â thafllu unrhyw beth yn y bus nac o'r bus
- Dim ond mewn argyfwng y dylech agor drysau neu allanfeydd y bus a pheidiwch â mynd oddi ar y bus nes ei fod wedi stopio
- Dylech wastad ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr
- Os bydd damwain, arhoswch ar y bus nes dywedir wrthyach am adael – ond gadewch y bus trwy'r allanfa fwyaf diogel os yw'n anniogel aros ar y bus
- Wrth groesi'r ffordd dewch o hyd i fan diogel lle gall yr holl yrwyr eraill eich gweld
- Dywedwch wrth athro/athrawes, rhiant neu'r gyrrwr am unrhyw ymddygiad gwael y byddwch yn ei weld